# Yr Amser

Esgusoda fi,
Faint o'r gloch yw hi?
Dwi'n dysgu'r amser
Wnei di fy helpu i?
Esgusoda fi,
Faint o'r gloch yw hi?
Wnei di fy helpu i?

Faint o'r gloch yw hi?
Mae hi'n chwech o'r gloch
Dyma pryd dwi'n deffro
Ac yn gweiddi'n groch
Brecwast, brecwast, brecwast i mi
Rhaid cael brecwast cyn gadael y tŷ!

Faint o'r gloch yw hi?
Mae hi'n un o'r gloch!
Dyma pryd mae cinio
Yn fy nghartref i
Cinio, cinio, cinio i mi
Rhaid cael cinio yn fy mola i!

Esgusoda fi,
Faint o'r gloch yw hi?
Dwi'n dysgu'r amser
Wnei di fy helpu i?
Esgusoda fi,
Faint o'r gloch yw hi?
Wnei di fy helpu i?

Faint o'r gloch yw hi?
Mae hi'n bump o'r gloch!
Dyma pryd mae swper
Yn fy nghartref i
Swper, swper, swper i mi
Rhaid cael swper cyn amser gwely

Mae'r gân yn cyflwyno /
The song introduces: yr amser / time
Geirfa gyffredinol /
General vocabulary:

| | |
|---|---|
| deffro | wake up |
| brecwast | breakfast |
| gadael | leave |
| tŷ | house |
| cinio | lunch |
| nghartref (cartref) | home |
| mola (bola) | stomach/tummy |
| swper | supper |
| cyn | before |

Patrymau iaith / Language patterns:

| | |
|---|---|
| Esgusoda fi | Excuse me |
| Faint o'r gloch yw hi | What time is it? |
| Dwi'n dysgu'r amser | I'm learning to tell the time |
| Wnei di fy helpu i? | Would you help me? |
| Mae hi'n … o'r gloch | It's … o'clock |
| Dyma pryd … | This is when … |
| Gweiddi'n groch | Shout loudly |
| Rhaid cael … | One must have |
| Amser gwely | Bedtime |

© 2025 S4C